***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 4

# GWEITHREDU CYNIGION I NEWID CATEGORI YSGOL

## **RHAN 3**

## TROSGLWYDDO TIR

*Newid o ysgol sefydledig i ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol wirfoddol a reolir*

17 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys—

(a) pan fo'n ofynnol o dan adran 55(2) i weithredu cynigion bod ysgol sefydledig nad yw'n aelod o'r grwp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto yn dod yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu'n ysgol wirfoddol a reolir, a

(b) o'r dyddiad gweithredu ymlaen pan fydd yr ysgol yn aelod o'r grwp.

(2) Mae unrhyw dir, ar wahân i dir sy'n cael ei ddal ar ymddiried, a oedd, yn union cyn y dyddiad gweithredu, yn cael ei ddal gan y corff llywodraethu at ddibenion yr ysgol sefydledig, ar y dyddiad hwnnw i'w drosglwyddo i'r corff sefydledig, ac i'w freinio ynddo.